

# Astudiaeth achos: Defnydd o'r grant dysgu proffesiynol ychwanegol yn 2019/20

## Cyd-destun a chefnidir

### Yr ysgol

Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng Ngwynedd yw Ysgol Bro Lleu yn ac mae'n rhan o gonsortiw GwE, Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru. Mae 214 o ddysgwyr ar gofrestr yr ysgol: mae 18 y cant yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (FSM); mae gan 24% y cant anghenion dysgu ychwanegol (ADY); ac mae gan 3 y cant Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL). Y rhaniad rhwng y rhywiau yn yr ysgol yw 47 y cant yn fechgyn a 53 y cant yn ferched.

### Arweinwyr dynodedig ac aelodau o staff addysgu

Mae gan Ysgol Bro Lleu dri arweinydd penodedig a naw o athrawon amser llawn.

### Swm y grant dysgu proffesiynol ychwanegol

Cafodd Ysgol Bro Lleu fuddsoddiad dysgu proffesiynol ychwanegol yn 2019/20.

## Sut y defnyddiwyd y grant ychwanegol

Defnyddiwyd y grant i adnabod meysydd oedd angen eu datblygu gan bob aelod o staff. Hwn oedd man cychwyn taith newid Ysgol Bro Lleu.

Myfyrion Gerallt Jones, Pennaeth Ysgol Bro Lleu ar daith yr ysgol:

'Ar ôl adnabod y meysydd i'w datblygu, aethom ymlaen wedyn i gwmpasu agweddau penodol oedd angen sylw arnyn nhw. Un o'r trafferthion roedd staff yn eu hwynebu oedd diffyg amser i fyfyrion a gwir edrych ar yr hyn maen nhw'n ei wneud o ddydd i ddydd, a phwyso a mesur llwyddiannau yn ogystal â meysydd i'w gwella. Aethom ati i newid ethos yr ysgol i fod yn fwy cynhwysol i staff.'

Yn ogystal â hyn mae'r grant hefyd wedi cefnogi'r gweithgareddau canlynol:

- anfon staff ar hyfforddiant penodol a ddarperir gan y consortiw
- paratoi amser di-gswllt i uwchsgilio staff yn y ffordd newydd o weithio
- rhoi amser i staff gyd-feddwl ar sut i ddatblygu eu hunain, eraill, a'r ysgol
- buddsoddi mewn offer oedd yn galluogi staff i ffilmio eu hunain ar gyfer myfyrion yn bersonol
- cydweithio ar brosiectau ysgogol Cwricwlwm i Gymru ar draws y dalgylch e.e. defnyddio offer rhith realiti i drawsnewid dysgu.

## Effaith y grant ar gydweithwyr ar draws yr ysgol

Mae'r effaith yn yr ysgol wedi bod yn anferth. O fewn yr ysgol mae ethos ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu wedi'i wreiddio. Mae wedi rhoi hyder a phŵer i staff allu wella eu hunain trwy ddulliau hunan-asesu a thrwy hunan-fonitro yn feirniadol ac yn feintiol. Mae hyn wedi arwain at staff yn holi ei gilydd am arferion, a datrys problemau ar y cyd, yn hytrach nag yn ynysig mewn dosbarth. Mae hyn oll yn digwydd yn naturiol, gyda'r uwch dim rheoli yn rhoi cefnogaeth a rhannu syniadau.

Ond ar ben hynny, mae'r grant hefyd wedi cael effaith y tu hwnt i Ysgol Bro Lleu, gyda'r grant yn cael effaith arbennig ar y dalgylch. Bellach mae ethos cydweithredol ar draws ysgolion yr ardal, gan gynnwys yr ysgolion uwchradd. Mae'r cydweithio hwn wedi golygu bod staff yn trafod, rhannu arferion gorau a chwilio am ddulliau i wella. Mae bob aelod o staff yn y dalgylch yn teimlo'n hyderus wrth edrych i ddatblygu cwricwlwm newydd – cwricwlwm sy'n addas i bob un o'i ysgolion.

## Effaith y grant ar ddysgwyr

Yn ôl yr ysgol, prif manteision y prosiectau i'w dysgwyr oedd:

Gwella brwdfrydedd ac agwedd at ddysgu

Cyfleoedd i gydweithio ag ysgolion eraill

Dywedodd Pennaeth Ysgol Bro Lleu:

'Gan fod y prosiectau yn rhai difyr, ysgogol a heriol, roedd brwdfrydedd y dysgwyr yno i bawb ei weld. Roedden nhw wedi dangos agwedd gadarnhaol iawn at ddysgu, i'r pwynt lle roedden nhw'n cael gymaint o hwyl doedden nhw ddim yn sylweddoli eu bod nhw'n dysgu!'

'Gwelsom gydweithio arbennig o dda ar draws y dalgylch. Cafodd y dysgwyr gyfle i gydweithio â nifer fawr o blant. Gan fod maint ysgolion yn y dalgylch yn amrywio, roedd hyn yn rhywbeth pwerus iawn i bawb.'

## Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w cymhwyso ar draws yr ysgol

Mae dysgu proffesiynol Ysgol Bro Lleu yn seiliedig ar y pwyntiau allweddol isod.

Gwir canolbwyntio ar egwyddorion ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.

Pa mor hyblyg â dewr y gall athrawon fod mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd.

Mae'r ysgol hefyd wedi sylweddoli bod:

- rhaid i staff cael amser i fyfrio, ac felly, mae wedi clustnodi amser tawel penodol i staff wir ystyried yr hyn maen nhw'n ei wneud.
- rhaid sicrhau amser digonol i staff drafod a rhannu syniadau.

Ychwanegodd y pennaeth:

'Un o'r gwersi pwysicaf ac efallai anoddach oedd ymddiried. Natur ysgolion yw herio staff i gael y gorau o ddysgwyr. Mae'r ysgol wedi ymddiried yn llawn yn arfarniadau'r staff ac mae hyn wedi bod yn agwedd bositif i bawb.'

## Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w rhannu ag ysgolion eraill

Dyma gyngor gan Bennaeth Ysgol Bro Llew:

'Byddwch yn ddewr gyda'r cwricwlwm newydd gan addysgu sgiliau modern i'r dysgwyr. Mewn perthynas â hyn gwelsom y cydweithio orau fel dalgylch, lle roedd arbenigedd gan bob aelod o staff, ac roedd y staff yn rhannu'i brofiadau gyda'i gilydd.'

'Y prif newid gwelsom o hyn oedd bod staff wedi'i ysgogi – wedi'i ysgogi i gynllunio cwricwlwm deniadol, addas i'r dalgylch sydd llawn hwyl a chyffro. Mae'r ysgol a'r dalgylch yn teimlo'n hyderus a brwdfrydig i gychwyn cynllunio i'r dyfodol ac ar gyfer y cwricwlwm newydd.'

## Camau nesaf

Mae Ysgol Bro Llew wedi cychwyn y camau nesaf yn barod wrth:

- gydweithio i greu blaenoriaethau Cynllun Datblygu i'r dalgylch e.e. y 12 egwyddor addysgeg
- dyfnhau'r berthynas drwy annog staff i weld ei gilydd yn addysgu
- cynnig profiadau newydd i staff wrth iddyn nhw weithio mewn ysgolion gwahanol yn y dalgylch.